**Y CYD-DESTUN**


Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ar gyfer 2020-2024 yn cael ei ddatblygu i ddangos ymrwymiad y Cyngor i fodloni Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2011. Bydd yn amlygu cysylltiadau â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau ar Safonau'r Gymraeg a materion Hawliau Dynol a sut mae'n ategu tri o'r saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru, sef Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Gan adeiladu ar ein gwaith cydraddoldeb blaenorol, mae'r Cynllun yn esbonio i'r staff, dinasyddion, y rhanddeiliaid a'r aelodau etholedig, sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am gyflawni ei ymrwymiadau cydraddoldeb a dal hefyd i fod yn sefydliad cynhwysol nad yw'n goddef gwahaniaethu o unrhyw fath.

Mae nifer o adroddiadau allanol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi ategu ac wedi dylanwadu ar ddatblygiad ein hamcanion cydraddoldeb newydd ni.

**A yw Cymru'n Decach? 2015 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Mae'r adroddiad *A yw Cymru'n Decach? 2015* yn edrych ar saith her allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw yng Nghymru. Yn ôl yr adroddiad, mae anghydraddoldebau a cham-drin hawliau dynol wedi ymwreiddio a bydd angen ymdrech gydunol gan unigolion a mudiadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i fynd i'r afael â nhw a'u lleihau.





Dyma'r saith her a enwyd:

1. Cau bylchau cyrhaeddiad mewn addysg
2. Annog recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg mewn cyflogaeth
3. Gwella amodau byw mewn cymunedau cydlynol
4. Cynyddu mynediad at gyfiawnder ac annog cyfranogiad democrataidd
5. Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chefnogi pobl sy'n profi problemau iechyd meddwl
6. Atal cam-drin, esgeulustod a chamdriniaeth mewn lleoliadau gofal a chadw
7. Dileu trais, cam-drin ac aflonyddu yn y gymuned

Hyd yn hyn, nid yw'r holl heriau hyn wedi'u hateb.  Ond, mae cynnydd wedi'i wneud tuag at ateb yr heriau hyn drwy nifer o gynlluniau gweithredu effeithiol o fewn y cyngor.  Er enghraifft, ym mis Mawrth 2018 mabwysiadodd y cyngor set o amcanion llesiant ar gyfer 2018-2023 yn ei gynllun corfforaethol.  Amcan Llesiant 1 yw **Gwella cyfleoedd addysg i bawb** a bydd hyn yn cael sylw drwy'r Strategaeth Uchelgeisiau Cyffredin 2019-2022.  Mae rhestr lawn o ddogfennau ategol perthnasol wedi'i chynnwys ym mhob un o'r amcanion.

**A yw Cymru'n Decach? 2015 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Mae fformat *A yw Cymru'n Decach? 2018* yn amlinellu'r themâu a ganlyn.  Mae amcanion y Cynllun wedi'u datblygu i gyd-fynd â'r themâu hyn;




- Addysg
- Gwaith
- Safonau Byw
- Iechyd
- Cyfiawnder a Diogelwch Personol
- Cymryd Rhan

Mae'r adroddiad yn sôn bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran gwneud Cymru'n decach, ond mae'n awgrymu bod llawer mwy o waith i'w wneud. Ffocws allweddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fydd anfantais sosio-economaidd, anabledd, rhyw a hîl a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2020-2024.

Wrth ddatblygu'n Hamcanion Cydraddoldeb, roedd *A yw Cymru'n Decach? 2015* ac *A yw Cymru'n Decach? 2018* yn hanfodol o ran ein harwain at yr Amcanion Cydraddoldeb rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch ac y manylir arnynt yn y ddogfen hon.

**Ymgynghori**

Nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn barn y staff, dinasyddion, y rhanddeiliaid a'r aelodau etholedig ar yr amcanion i egluro eu barn ar y camau mwyaf priodol i'w cynnwys yn y cynllun.

| **Amcan Cydraddoldeb 1** |
| --- |

Cynllunio a darparu gwasanaethau – deall a dileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gyrchu gwasanaethau

**Y Cyd-destun**

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hygyrch a chynhwysol i drigolion Caerffili ac ymwelwyr â Chaerffili. Byddwn yn cyflawni hyn drwy barhau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn nodi a dileu rhwystrau i wasanaethau.

Gall y rhwystrau sy’n cael eu profi gan grwpiau ac unigolion gynnwys cael gafael ar wybodaeth mewn fformatau priodol i ateb eu hanghenion, anawsterau iechyd meddwl, trafnidiaeth a diweithdra. Dylai meysydd gwasanaeth roi cynlluniau a strategaethau ar waith ar y cyd er mwyn mynd i'r afael yn llwyddiannus â’r rhwystrau a nodwyd a'u dileu.

Meysydd yr hoffem eu gwella yw addysg, iechyd a gwasanaethau iechyd meddwl, tai, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth.

Grymuso grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig i allu cael gafael ar y gwasanaethau y mae arnyn nhw eu hangen yw un ffocws allweddol i'r Cyngor.

**Themâu o ‘A yw Cymru’n Decach? 2018’**

Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cymryd Rhan

**Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol**

Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Hîl, Crefydd neu Gred, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol, Y Gymraeg

**Dogfennau Ategol**

- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Caerffili 2018-2023.
- Cynllun Corfforaethol 2018-2023
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

**Camau i’w Cymryd:**

| | |
|---|---|
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |
| 4. | |
| 5. | |

**Amcan Cydraddoldeb 2**

Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth – Gwella cyfleoedd addysg i bawb

**Y Cyd-destun**

Prif nod yr amcan hwn yw sicrhau bod ein cymunedau mewn sefyllfa dda i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy sy'n talu'n dda fel modd o atal tlodi. Drwy sicrhau bod ein dinasyddion yn barod i fynd i'r amgylchedd gwaith, byddwn yn atal problemau hirdymor sy'n gysylltiedig â sgiliau isel a chyflogadwyedd.

Bydd *'Gwella cyfleoedd addysg i bawb'* yn unol â'r manylion yng **Nghynllun Corfforaethol y Cyngor**, yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio canlyniadau a nodir yn y strategaeth **Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022**. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i weithio gydag ysgolion a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i wella cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol.

Bydd cynyddu nifer y dinasyddion sy'n manteisio ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn gyfraniad cadarnhaol at greu cymunedau cydlynus, gwydn a ffyniannus. Mae'r agenda sgiliau yn sylfaenol i ddatblygiad economaidd a ffyniant economaidd y genedl, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bwrdeistref Sir Caerffili.

Yn allweddol i hyn fydd i ganolbwyntio ein gwaith ar leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant, dileu'r bwlch mewn diweithdra a'r bwlch anweithgarwch economaidd, nodi'r bylchau sgiliau a'r prinder mewn sectorau â blaenoriaeth, cynyddu'r nifer a ansawdd prentisiaethau a gwella canfyddiad pobl o brentisiaethau.

**Themâu o 'A yw Cymru'n Decach? 2018'**

Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cymryd Rhan

**Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol**

Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Hîl, Crefydd neu Gred, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol, Y Gymraeg

**Dogfennau Ategol**

- Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach? 2018'
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-22
- Ffyniant i Bawb – Cynllun Geithredu
- Cynllun Corfforaethol 2018-23
- Cymraeg 2050
- Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Camau i'w Cymryd:**

| | |
|---|---|
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |
| 4. | |
| 5. | |

**Amcan Cydraddoldeb 3**

Cydlyniant Cymunedol – Hybu a hwyluso cymunedau cynhwysol a chydlynol

**Y Cyd-destun**

Disgrifir cydlyniant cymunedol, fel y'i diffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru, **Cydlyniant Cymunedol: Cynllun Cyflawni Cenedlaethol 2014-2016** fel gallu pob cymuned i weithredu a thyfu mewn cytgord gyda'i gilydd yn hytrach nag mewn gwrthdaro. Y nod yw adeiladu cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn perthyn ac yn gyfforddus yn cymysgu ac yn rhyngweithio ag eraill, yn enwedig gyda phobl wahanol sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Un cyfrannwr allweddol at gydlyniant yw integreiddio, sef yr hyn sy'n gorfod digwydd i alluogi dinasyddion newydd a thrigolion presennol i addasu a byw'n gytûn gyda'i gilydd.

Felly gall cydlyniant cymunedol gael ei ddefnyddio i fesur pa mor dda y bydd gwahanol gymunedau lleiafrifol a mwyafrifol yn datblygu ac yn ymwneud â'i gilydd. Gall cymunedau eu diffinio eu hunain yn ôl cymdogaeth, ethnigrwydd neu ddiwylliant, grŵp oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, rhyw neu nodweddion neu fuddiannau eraill.

**Themâu o 'A yw Cymru'n Decach? 2018'**

Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cymryd Rhan

**Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol**

Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hîl, Crefydd neu Gred, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol, Y Gymraeg

**Dogfennau Ategol**

- Cynllun Corfforaethol 2018-2023
- Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach? 2018'
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cydlyniant Cymunedol: Cynllun Cyflawni Cenedlaethol 2014-2016

**Camau i'w Cymryd:**

| | |
|---|---|
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |
| 4. | |
| 5. | |

**Amcan Cydraddoldeb 4**

Ymgysylltu Cynhwysol a Chymryd Rhan – Ymgysylltu â dinasyddion i annog cyfranogiad ac i leisio'u barn wrth gynllunio darpariaeth gwasanaeth

**Y Cyd-destun**

Mae'r amcan hwn hefyd yn un o'n hamcanion corfforaethol ac yn edrych ar sut y gallwn 'Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant'. Mae'n cynnwys helpu pobl i helpu eu hunain drwy ddarparu cyngor ac arweiniad cynhwysfawr, gan gynnwys eu cyfeirio at wasanaethau eraill. Mae'n golygu cael sgyrsiau ystyrlon gyda phobl i'w helpu i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt, a fydd yn bwydo gwasanaethau sy'n addas i'w hanghenion.

Mae'n hanfodol bod gwybodaeth ar gael mewn gwahanol fformatau er mwyn sicrhau bod yr holl drigolion yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw ymarferion ymgysylltu neu bob un ohonynt. Bydd datblygiadau technoleg yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth ar fformatau digidol, ond mae rhwystrau o hyd sy'n atal dinasyddion rhag ymgysylltu. Mae trafnidiaeth, iechyd meddwl, statws sosio-economaidd, sgiliau llythrennedd a rhifedd isel ac anawsterau penodol sydd gan grwpiau anodd eu cyrraedd neu grwpiau nad ydyn nhw'n cael eu clywed yn aml, ymysg y rhwystrau sy'n dal i atal dinasyddion rhag ymgysylltu â'r cyngor a gwasanaethau cymorth.

**Themâu o 'A yw Cymru'n Decach? 2018'**

Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cymryd Rhan

**Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol**

Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hîl, Crefydd neu Gred, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol, Y Gymraeg

**Dogfennau Ategol**

- Cynllun Corfforaethol 2018-2023
- Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach? 2018'
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol 2019-2023
- Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

**Camau i'w Cymryd:**

| | |
|---|---|
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |
| 4. | |
| 5. | |

| **Amcan Cydraddoldeb 5** | |
|---|---|
| Y Gymraeg – Sicrhau y gall y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gael mynediad i wasanaethau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol | |
| **Y Cyd-destun** | |
| Nid yw materion y Gymraeg wedi'u cynnwys yn **Neddf Cydraddoldeb 2010** ond mae ganddynt set o safonau o dan **Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011**. Manylir ar y rhain yn y rheoliadau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru fel **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**.<br><br>Mae arferion gweithio mewnol yn dal i ddatblygu i sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei pharchu ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. I helpu'r cyngor i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg ac i ateb anghenion y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn y fwrdeistref sirol, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel: Menter Iaith Caerffili, y Fforwm Iaith, ysgolion cyfrwng Cymraeg etc. Manylir ar y gwaith hwn yn strategaeth y Cyngor, **Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2017-2022**.<br><br>Rhaid inni gydymffurfio â'r holl Safonau Cymraeg y cytunwyd arnynt, yn unol â'r manylion yn **Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor**, er mwyn sicrhau bod modd i'r boblogaeth Gymraeg ei hiaith, boed staff, dinasyddion, myfyrwyr neu ymwelwyr gael gwasanaethau'r cyngor yn Gymraeg. | |
| **Themâu o 'A yw Cymru'n Decach? 2018'** | |
| Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cymryd Rhan | |
| **Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol** | |
| Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hîl, Crefydd neu Gred, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol, Y Gymraeg | |
| **Dogfennau Ategol** | |
| ➢ Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor – Safonau'r Gymraeg<br>➢ Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd | ➢ Cymraeg 2050<br>➢ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Camau i'w Cymryd:** | |
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |
| 4. | |
| 5. | |

| **Amcan Cydraddoldeb 6** | |
|---|---|
| Gweithlu Cynhwysol, Amrywiol a Chyfartal – Creu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn parchu amrywiaeth y cymunedau yn y fwrdeistref sirol | |
| **Y Cyd-destun** | |
| Mae creu gweithle sy'n ddiogel a chynhwysol yn hybu amgylchedd gwaith cadarnhaol lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso, sy'n eu galluogi i roi gwasanaethau o safon i'n dinasyddion.<br><br>Mae arnon ni angen gwell dealltwriaeth o amrywiaeth ein gweithlu. I wneud hyn, mae'n hanfodol casglu data monitro cydraddoldeb a sicrhau bod y data hwn yn cael ei gasglu ar ddechrau'r broses gyflogi gyda'r cyngor. Caiff y data hwn ei lanhau a'i ddiweddaru'n rheolaidd.<br><br>Mae tegwch yn y gwaith a pherfformiad da yn y swydd yn mynd law yn llaw. Mae mynd i'r afael â gwahaniaethu yn helpu i ddenu, ysgogi a chadw staff ac yn gwella enw da sefydliad fel cyflogwr cynhwysol.<br><br>Mae hyfforddiant mewn cydraddoldeb a hyfforddiant Cymraeg yn rhoi'r sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae ar y staff eu hangen i ymgysylltu'n sensitif â chwsmeriaid. Mae gwella sgiliau'r staff fel eu bod yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig yn sicrhau bod dinasyddion ag anghenion penodol yn cael gwasanaethau sy'n hygyrch ac sy'n cydymffurfio â'r gofynion. | |
| **Themâu o 'A yw Cymru'n Decach? 2018'** | |
| Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cymryd Rhan | |
| **Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol** | |
| Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hîl, Crefydd neu Gred, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol, Y Gymraeg | |
| **Dogfennau Ategol** | |
| ➢ Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach? 2018'<br>➢ Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd Lefel 2<br>➢ Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall | |
| **Camau i'w Cymryd:** | |
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |
| 4. | |
| 5. | |

| **Amcan Cydraddoldeb 7** | |
|---|---|
| Lleihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau | |
| **Y Cyd-destun** | |
| Mae'n ofynnol inni edrych ar wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau yn y cyngor a nodi amcan a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaeth a welir.<br><br>Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau CBSC bob blwyddyn, sy'n un o'r gofynion o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017.<br><br>Fel cyngor, rydym yn hyderus nad yw ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfatebol. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o'r rolau y mae dynion a menywod yn gweithio ynddyn nhw ar hyn o bryd a'r cyflogau y mae'r rolau hyn yn eu denu.<br><br>Mae'n bwlch cyflog ni rhwng y rhywiau yn adlewyrchu achosion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar lefel y gymdeithas. Er enghraifft, mae ymchwil yn dangos bod cyfrifoldeb gofal plant yn dal i ddisgyn yn anghymesur ar fenywod, er bod rhieni'n gynyddol hyblyg. Y ffaith amdani yn y data hwn yw bod y mwyafrif mawr o swyddi rhan-amser yn cael eu dal gan fenywod ac mai'r rhain yw'r swyddi sy'n denu cyflogau yn y chwarteli isaf. | |
| **Themâu o 'A yw Cymru'n Decach? 2018'** | |
| Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cymryd Rhan | |
| **Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol** | |
| Oedran, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Rhyw | |
| **Dogfennau Ategol** | |
| ➢ Cynllun Corfforaethol 2018-2023<br>➢ Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach? 2018'<br>➢ Chwarae Teg – Adroddiad Cyflwr y Genedl 2019 | |
| **Camau i'w Cymryd:** | |
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |
| 4. | |
| 5. | |